# DIRGELWCH Y DALENNAU COLLEDIG
## a MEREDYDD EVANS ar y trywydd

HYD Y GWYDDYS nid oes ond un copi ar gael o *Cerdd Lyfr* (Ffoulke Owens) a argraffwyd yn Rhydychen yn 1686. Cyflwynwyd hwnnw i'r Llyfrgell Genedlaethol gan Owen Williams, a fu, ar un cyfnod, yn Llyfrgellydd Sir Ddinbych.

Yn anffodus copi anghyflawn yw, yn agor â cherdd gyfan ar dudalen 15 ac yn diweddu gyda cherdd anghyflawn ar dudalen 150. Yn *Llyfryddiaeth y Cymry,* Gwilym Llŷn, nodir bod 180 tudalen yn y gwreiddiol. Beth tybed, oedd union natur ei gynnwys? Gellir mentro damcaniaethu.

Yn 1696 y cyhoeddodd Thomas Jones ei *Carolau a Dyriau Duwiol* a thua diwedd y gyfrol honno dywedir hyn:

> *Yn y llyfr (o gasgliad Ffoulke Owen) a Argraphwyd yn Rhydychen, yn y flwyddyn 1686, i roedd o garolau a dyriau 54. Argraphwyd yn y llyfr hwn 45 ohonŷnt; ar 9. eraill (gan gyfri eu bôd yn anghymŵys i fod ymhlîth cân dduwiol) nid Argraphwyd ymma monŷnt.*

Yn ffodus, daw cadarnhad i'r nifer o gerddi a godwyd o'r C-L i gyfrol Thomas Jones. Y ffaith arwyddocaol yw fod copi'r Llyfrgell Genedlaethol o argraffiad cyntaf CDD wedi perthyn, ar un adeg, i Dafydd Jones o Drefriw.

Cynnwys tudalennau hwnnw nifer o nodiadau yn ei lawysgrifen ddestlus ef ei hun ac, at hynny, arwydd a ddefnyddiodd i ddynodi pa gerddi a godwyd gan Thomas Jones o'r C-L, gyda nodi hefyd rifau-tudalen yr olaf ar ben bron bob un o'r cerddi perthnasol (mae pedair eithriad).

Roedd ganddo, mae'n amlwg, gopi o'r C-L yn ogystal. Yn wir, cyfeiria at hyn yn ei ragymadrodd i *Blodeu-gerdd Cymry* (1759):

> *Rhag cael fy nghyfri gyda'r gwas diog yn yr efengyl mewn oriau segur pan oeddwn yn athraw i ychydig o blant, y cynnullais beth o gynnilwaith y Beirdd, ac wrth fwrw golwg ar amryw, mi a gefais gopiau cywirach o'r naill i'r llall, nag sydd yn y Llyfr Carolau a argraphwyd i Ffowc Owen yn y flwyddyn 1686. Mae yn ei Lyfr ysgrifen ef, lawer o Ganiadau, &c. na buont etto mewn argraph. Y Llyfr Carolau drachefn a argraphwyd gan Thomas Jones, 1696, a hwn sydd dan amryw feiau. Mi a ddymunwn fod fy nghopi wrth law'r sawl a'i argrapho y tro nesaf.*

Ac o gyfrif y cerddi y ceir arwydd wrthynt yng nghopi Dafydd Jones o CDD gwelir eu bod yn rhifo union 45 (a chyfrif cerddi'r ddwy chwaer at ei gilydd fel un gerdd; yr hyn a wnaeth Thomas Jones, 'dybiwn i).

* * *

NID OES amheuaeth am arwyddocâd yr arwydd gan ei fod ynghlwm, y tro cyntaf y digwydd, wrth nodyn ar ben tudalen 17, yn llaw Dafydd Jones: 'Dechre llyfr Ffowc Owen yma.' Yna ymhellach ymlaen ar dudalen 330, cawn: 'Diwedd llyfr Ffowc Owen yma.'

Eithr sylwer mai ystyr hyn yw nad oes ymhlith y cerddi sy'n dilyn unrhyw un a godwyd o'r C-L. Nid dweud a wneir mai gyda'r gerdd benodol ar dudalen 330 y deuai'r llyfr hwnnw i'w derfyn.

Y gwir yw na wyddom i sicrwydd pa gerddi a gynhwyswyd ar dudalennau coll agoriadol a chlo llyfr Ffoulke Owens. Serch hynny, yng ngoleuni'r hyn a ddywedwyd gellir bwrw amcan gweddol hyderus.

Cynnwys y copi anghyflawn o'r C-L 40 o gerddi (eto gan gyfrif cerddi'r chwiorydd fel un gerdd) gydag 8 o'r rheini **heb** fod yn gynwysedig yn CDD. Dyna, felly, adael 32 ar ôl, sef 13 yn fyr o'r 45 y mynnai Thomas Jones iddo gynnwys yn ei gyfrol.

O'r 13 hyn gellir bod yn bur siwr, a dilyn cyfarwyddyd Dafydd Jones, y dylid cynnwys 4 ohonynt ar y tudalennau agoriadol, sef y rhai sydd i'w gweld ar dudalennau 17, 23, 26 a 28 o'r CDD. Ond nid yw'n debygol yr âi hyn â ni at dudalen 15 y C-L anghyflawn, gyda'i gerdd 'gyntaf'.

Gallai fod lle i un gerdd fer yn ychwanegol ac, yn y cyswllt hwn, mae'n werth cofio i Thomas Jones ddweud ei fod wedi hepgor 9 cerdd o'r C-L wrth fynd ati i gynnull ei ddefnyddiau ef ar gyfer CDD.

Pe gosodid yr un gerdd goll bosibl hon gyda'r 8 y cyfeiriwyd atynt eisoes yn y paragraff blaenorol dyna gyfrif am y 9 na ddefnyddiwyd gan Thomas Jones.

Am y 9 sy'n weddill o'r 13 y cyfan y medrir yn ddiogel ei wneud yw eu hychwanegu at ran olaf y C-L anghyflawn. Gellir gweld fersiynau ohonynt, yn gyflawn, ar dudalennau 92, 139, 142, 146, 148, 151, 172, 193 a 265 o'r CDD.

* * *

OND BETH am y cerddi sy'n aros yn y C-L anghyflawn? Mae'n werth gwneud rhai sylwadau cyffredinol yn eu cylch gan mai hwn oedd un o'r casgliadau printiedig cyntaf o'i fath. Hyd y gwn, ef oedd yr ail a gyhoeddwyd. Fe'i rhagflaenwyd gan gasgliad llai Thomas Jones, 'Y Gwir er Gwaethed Yw' (1684); a gynhwysai hefyd rai cywyddau gan William Llŷn a Siôn Cent.

Eglwyswyr yw'r prydyddion, gyda deg ohonynt yn gyfrifol am 36 o'r 40 cerdd, a'r pedair sy'n weddill yn perthyn i feirdd anhysbys. O ystyried eu hamlygrwydd ymysg beirdd yr ail ganrif ar bymtheg nid yw'n rhyfedd o gwbl gweld deg cerdd dan enw Edward Morus a phump o law Huw Morus.

Yn naturiol ddigon ceir llawer iawn o foesoli yn y cerddi. Yn wir maent i gyd yn hynod o ddifrifol heb arnynt yr arlliw lleiaf o faswedd.

Atgoffir y gynulleidfa yn gyson o freuder bywyd, o ddydd barn ac o'r angen am edifeirwch, gyda sicrwydd y bydd Duw, ar bwys hynny, yn siwr o faddau i'r troseddwyr. Mae medd-dod a chwarae cardiau yn y dafarn, balchder a gwisgo'n grand o gwmpas y lle, diogi a gloddesta wrth y byrddau, yn dargedau amlwg.

Gwgir ar dyngu a rhegi, ar dorri'r Sabath, ar usuriaeth a chybydd-dod. Condemnir yn llym y rhwysg a'r rhodres sy'n gysylltiedig â chyfoeth, a'r anwybyddu ar anghenion y tlawd a'r diamddiffyn sydd ynghlwm wrth hynny fel rheol.

Ond camgymeriad a fyddai dehongli hyn oll fel enghreifftiau o feirniadu chwyldroadol. Gwŷr ceidwadol yw'r prydyddion un ac oll.

Mewn cerdd gan Edward Morus, dyddiedig 1670, lle mae'n ymosod ar ormes cyfoethogion, gan ddal, yn wir, fod cyfraith gwlad yn eu ffafrio, gallech dybio ei fod ar fin dadlau fod tlodi yn hollol annerbyniol mewn cymdeithas wâr, ond nid felly o gwbl. Prysura i gyfiawnhau hanfodion y drefn gymdeithasol oedd ohoni. Nid oedd achos i gyfoethogion gwlad a llywiawdwyr gwledydd bryderu o'i achos ef:

> **Cyfoeth heb bechod nid ydwy'n ei ddannod,**
> **Na pherchi'r Awdurdod yn barod bob un ...**

Fel gweddill ei gyd-brydyddion teyrngar y neges a fynnai ef ei chyfleu oedd na ddylid ystyried tlodi fel rhywbeth dirmygus:

> **Cyflwr anghenus nid ydoedd ddirmygus,**
> **Gan Dduw mor gariadus daionus fu'r dawn,**
> **Pan roes mewn tlodi ei anwyl fab i ni,**
> **Yr haul ar goleuni goel Vniawn.**
>
> **Lle'r oedd Cyfoethogion mawr vchel mor wchion,**
> **Yn llenwi'r lletteuon tirion bob tŷ,**
> **A mâb y goruchaf a'r forwyn ddiweiria,**
> **Mewn preseb or gwaela'n lle gwely.**

Syrth cysgod y Rhyfel Cartref ar rai o'r cerddi ac fel breniniaethwyr selog bwria sawl prydydd ei lach ar y Piwritaniaid a'r Sectyddion. I Edward Morus, er enghraifft, roedd dychweliad y frenhiniaeth yn 1660 yn achlysur i orfoleddu yn ei gylch, yn rhyddhad o gaethiwed:

> **Heb iachus athrawiaeth heb foesol wirgyfreth,**
> **Heb Vnion lywodraeth anhyweth wanhau,**
> **Y buom gaeth weision dan filwyr anghyfion,**
> **Ac aml ebychion o'u beichiau.**
>
> **Ordeiniodd Duw'r owran bob un iw le ei hunan,**
> **Ar gonest pureiddlan yn gyfan ol gûr,**
> **Charls oedd ben arnom yr hwn a gollasom,**
> **Charls eilwaith a gowsom drwy gysur.**

Ac y mae Huw Morus yntau, gyda'i fod mewn un gerdd yn dilorni gwaith Vavasor Powell a Morgan Llwyd, yn ddeifiol ei gondemniad o'r hyn a ystyriai ef yn rhagrith y Dirprwywyr a'r Profwyr a ymddiriedwyd gan y Weriniaeth â'r gwaith o daenu yr Efengyl yng Nghymru:

> **Rhyw fudredd heb fedru bedyddio na chladdu,**
> **A geisie bregethu an barnu ger bron,**

(I dud. 17)

## MOLIANT LLYFRWERTHWR

*Siop Dafydd Huws,*
*Llandudno*

*O'i fodd daw'r llyfrbryf hyddysg, — neu ŵr llên*
*Tua'r llain ddiderfysg;*
*Hafod o hedd, cloddfa dysg,*
*Lle gemau, rhyw gell gymysg.*

*Lluniau beirdd, llyfrau llawn budd, — heb leithder*
*Yn dryblithdod celfydd;*
*Aur coeth sy'n nyfnderau cudd*
*Sypiau difyr siop Dafydd.*

*Derwyn Jones*